ATODLEN 1

Gwybodaeth am ddarpar rieni maeth ac aelodau eraill o'u haelwyd a'u teulu

RHAN 1

1. Enw llawn, cyfeiriad a dyddiad geni.

2. Manylion iechyd (wedi eu hategu gan adroddiad meddygol).

3. Manylion unrhyw aelodau eraill o'r aelwyd sy'n oedolion.

4. Manylion y plant yn y teulu, pa un a ydynt yn aelodau o'r aelwyd ai peidio, ac unrhyw blant eraill yn yr aelwyd.

5. Manylion eu llety.

6. Canlyniad unrhyw archiad neu gais a wnaed ganddynt neu gan unrhyw aelod arall o'u haelwyd i faethu neu fabwysiadu plant, neu i gofrestru'n warchodwr plant neu'n ddarparwr gofal dydd o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), gan gynnwys manylion unrhyw gymeradwyaeth flaenorol sy'n ymwneud â hwy neu ag unrhyw aelod arall o'r aelwyd, neu unrhyw wrthodiad blaenorol i gymeradwyaeth o'r fath.

7. Os yw'r person, yn y tair blynedd flaenorol, wedi bod yn rhiant maeth a gymeradwywyd gan ddarparwr gwasanaethau maethu arall neu ddarparwr gwasanaethau maethu yn Lloegr, enw a chyfeiriad y darparwr gwasanaethau maethu hwnnw.

8. Enwau a chyfeiriadau dau berson a fydd yn darparu geirda personol ar gyfer y person.

9. Mewn perthynas â'r person ac unrhyw aelod arall o aelwyd y person sy'n 18 oed neu drosodd, tystysgrif cofnod troseddol manwl a ddyroddir o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997(**2**) sy'n cynnwys gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant (o fewn ystyr "suitability information relating to children" yn adran 113BA(2) o'r Ddeddf honno).

10. Manylion priodas, partneriaeth sifil neu berthynas debyg gyfredol ac unrhyw briodas, partneriaeth sifil neu berthynas debyg flaenorol.

(**1**) 2010 mccc 1.
(**2**) 1997 p. 50.